

Sut alla i gymryd rhan?

1. Dilynwch y cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, cofrestrwch ar gyfer y gwahanol weithgareddau a allai fod o ddiddordeb i chi a rhannwch gyda'ch ffrindiau a'ch teulu.
2. Pan fyddwch yn mynd i siopa, gwnewch ymdrech arbennig i brynu'n lleol. Edrychwch ar y label, o ble y daw'r cynnyrch? A oes cynnyrch cyfwerth ar gael yn lleol?
3. Prynwch fwyd tymhorol, ceisiwch chwilio amdanynt: riwbob, ysgewyll Brwsel, seleri, cennin, cres – rhowch wybod i ni os ydym wedi anghofio rhywbeth.
4. Rhowch gynnig ar y cystadlaethau – ceisiwch ddefnyddio cynhwysion lleol lle bo hynny'n bosibl.
5. Defnyddiwch eich cigydd, siop fferm a'ch marchnad ffermwyr leol - dewch i wybod am y sawl sy'n cynhyrchu'r bwyd rydych yn ei brynu.
6. Archebwch fwrdd mewn bwyty a sylwch pan fyddant yn gweini cynnyrch lleol.
7. Ymunwch ar-lein, anfonwch luniau atom o fwydlenni sy'n hyrwyddo cynnyrch lleol, prydau yr ydych wedi'u cael mewn bwyty neu wedi'u coginio gartref, ffenestri siop a silffoedd mewn siopau. Tagiwch #angleseyfoodweek
8. Mae'r Nadolig yn agosáu – prynwch anrhegion o Ynys Môn.